



Cylchlythyr TarddLe

Gaeaf 22 / 23

Newyddion tîm dalgylch dŵr yfed Dŵr Cymru

[Gweld y fersiwn ar-lein](#)

Croeso i gylchlythyr TarddLe.

Yn y rhifyn hwn byddwn yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i chi am y gwaith y mae ein tîm wedi bod yn ei wneud yn ogystal â gwybodaeth am ein gweithgareddau ymgysylltu cymunedol.

Os oes gennych chi awgrymiadau am gynnwys yr hoffech chi weld mwy ohono, rhowch wybod i ni.

Gwerthuso Risg

Deall yr heriau i ansawdd dŵr drwy fonitro, gwybodaeth a Chynlluniau Diogelwch Dŵr Yfed

Cynllunio ar gyfer Tywydd Sych



Y llynedd gostyngodd lefelau cronfeydd dŵr yn hanesyddol isel a bu cynnydd yn y galw wnaeth amlygu problemau yn ymwneud ag ansawdd dŵr yfed.

I ddeall beth oedd yn digwydd, cynhaliodd Gwyddonwyr Risg Dalgylch ymarfer samplu dyfnder er mwyn deall ansawdd y dŵr yn well ar lefelau tynnu dŵr. Roedd hyn yn sicrhau bod tynnu dŵr yn cael ei reoli'n briodol i sicrhau bod ansawdd dŵr yfed mor uchel â phosibl yn y gwaith trin.

Bydd y tîm nawr yn datblygu cynllun gweithredu ar gyfer hafau sych yn y dyfodol er mwyn achub y blaen ar unrhyw ddirywiad mewn ansawdd dŵr crai o ganlyniad i hafau cynhesach a sychach a'r galw cynyddol.

Mynd i'r afael â phroblem PFAS



Mae PFAS yn sefyll am Sylweddau Perfluoroalkyl a Polyfluoroalkyl. Mae'r rhain yn gemegau cymhleth sydd wedi'u gweithgynhyrchu sy'n bresennol mewn cynhyrchion bob dydd fel llestri coginio a diwydiannau fel adeiladu. Ond nid yw moleciwlau PFAS yn diraddio'n hawdd yn yr amgylchedd.

I ddeall yn well y peryglon posibl yn sgil y moleciwlau i ansawdd dŵr yfed, mae'r Tîm Risg Dalgylch wedi sefydlu asesiad llinell sylfaen ar draws pob un o'n dalgylchoedd dŵr yfed a datblygu cynllun gweithredu ar gyfer achos o lefelau uwch yn cael eu cofnodi.

Bydd y tîm yn adolygu'r risg i ddalgylchoedd yn seiliedig ar newidiadau tir a byddant yn parhau i fonitro a samplo dŵr crai.

Dalgylchoedd Clyfar

Datblygu 'Gefail Digidol' i ddangos sut mae tir a dŵr yn gysylltiedig ar gyfer rhagfynegi a rhagamcanu risg yn well.

Mapio Llwybr Hydrolegol i Ffermwyr



Fel rhan o'n cydweithredu â Grŵp Dŵr Bannau Brycheiniog, mae'r Tîm Dalgylch Dŵr Yfed wedi bod yn cynnig mapio llwybrau hydrolegol ar gyfer ei aelodau.

Mae'r mapiau hyn yn nodi 'parthau dim lledaenu' sy'n helpu i leihau colli maethynnau neu blaladdwyr ar gyfer y ffermwr wrth atal llygredd gwasgaredig rhag effeithio ar ffynonellau dŵr yfed.

Gall ffermwyr ddefnyddio'r wybodaeth i addasu gweithgareddau rheoli tir i nodi ardaloedd dim lledaenu neu ddefnyddio maethynnau wedi'u targedu'n well.

Ymchwil ac Arloesi

Ymgymryd â dulliau arloesol gwyddoniaeth arloesol a dulliau newydd er mwyn datblygu atebion cadarn i wella ansawdd dŵr.

Prosiect Partneriaeth Arloesi Ewropeaidd a ariennir gan Dŵr Cymru yn helpu ffermwyr i ymdrin â heintiau crypto



Mae astudiaeth gan Bartneriaeth Arloesi Ewrop Cymru, wedi'i chefnogi gan Dŵr Cymru ym Mhowys wedi helpu ffermwyr i ddeall yn well sut gall cryptosporidium heintio'u diadelloedd defaid a nodi'r camau gorau i'w cymryd i amddiffyn a thrin eu hanifeiliaid.

Roedd y project yn cynnwys samplu ffynonellau dŵr yfed da byw cyn, yn ystod ac ar ôl ŵyna, a samplu carthion ŵyn ac anifeiliaid eraill ar y ffermydd.

Dywedodd Nigel Elgar, Rheolwr Prosiectau Dŵr Cymru: "O ganlyniad i'r prosiect mae'r ffermwyr dan sylw yn fwy ymwybodol o'r materion sy'n gysylltiedig â crypto ac mewn sefyllfa well i ddeall y camau y gallan nhw eu cymryd i leihau'r risgiau iddyn nhw eu hunain a'u hanifeiliaid."

Partneriaethau ac Ymgysylltu

Cydweithredu â phartneriaid a chymunedau i godi ymwybyddiaeth o bwysigrwydd diogelu dŵr yfed.

Cynhadledd Nuffield Mis Tachwedd 2022



Cafodd Cynhadledd Amaethyddol flynyddol Nuffield ei chynnal yng Nghaerdydd ddiwedd mis Tachwedd ac roedd y Tîm Dalgylch Dŵr Yfed yn un o noddwyr y digwyddiad.

"Mae rhaglen Ysgoloriaeth Ffermio Nuffield yn gynllun sydd wedi'i chydabod yn rhyngwladol, ac yn un yr wyf i wedi elwa arni'n bersonol," meddai rheolwr y prosiect ac Ysgolhaig Nuffield, Nigel Elgar.

"Cafodd y digwyddiad ei gynnal yng Nghymru am y tro cyntaf ers deng mlynedd ac roedd yn gyfle i rannu gyda chymuned Nuffield rai o'r arferion a'r partneriaethau arloesol y mae'r Tîm Dalgylch Dŵr Yfed wedi bod yn gweithio arnyn nhw yn ystod y Cynllun Rheoli Asedau hwn."

Gwersyll Dyfodol Ecolegol Mis Awst 2022



Cafodd y Gwersyll Dyfodol Ecolegol cyntaf erioed ei gynnal yn 2022 a chafodd ei noddi gan y Tîm Dalgylch Dŵr Yfed.

Wedi'i drefnu gan Goleg y Mynydd Du, gwnaeth ganiatáu i bobl ifanc o gefndiroedd amrywiol gymryd rhan mewn profiad dysgu ymgolli a oedd yn canolbwyntio ar newid hinsawdd.

Roedd y Tîm Dalgylch wedi gallu rhoi gwybod i'r grŵp am reoli dalgylchoedd dŵr yfed, ei nodau a'i egwyddorion, a chael profiad drostyn nhw eu hunain o ffordd newydd o ddysgu y mae modd ei ddefnyddio gan y busnes i fynd i ymdrin â'r heriau sydd i ddod.

Cynhadledd TarddLe 22



Dychwelodd y Gynhadledd TarddLe flynyddol ym mis Tachwedd, y tro hwn dan y teitl Hwyluso Cydweithio Effeithiol.

Ail-sefydlodd y digwyddiad gysylltiadau a wnaed cyn COVID a gwnaeth ganolbwyntio ar sicrhau ymrwymiad gan bartneriaid allweddol i gydweithio fel 'Tîm Cymru' i ddiogelu ein ffynonellau dŵr yfed.

Hwn oedd y cyfle cyntaf i fwrw ymlaen ag argymhellion y Grŵp Craidd Archwiliad Dwfn Bioamrywiaeth, o dan gadeiryddiaeth y Gweinidog Newid Hinsawdd, Julie James AS.

Mae gwybodaeth a deunyddiau eraill ar gael ar ein [gwefan](#).

Gorsafoedd Tywydd ar Ffermydd



Rydym wedi ariannu gwaith gosod pedair gorsaf dywydd ar ffermydd sy'n eiddo i aelodau Grŵp Dŵr Bannau Brycheiniog, buddsoddiad o bron i £20,000.

Mae'r gorsafoedd tywydd hyn yn defnyddio technoleg flaengar i lywio defnydd gorau o blaladdwyr a maethynnau. Mae hyn yn arbed arian i'r ffermwr ac yn lleihau'r risg o lifo o'r tir i ffynonellau dŵr yfed.

Cafodd y gwaith o osod y gorsafoedd ei ysgogi gan aelodau Grŵp Dŵr y Bannau a fydd yn casglu ac yn cofnodi mwy o ddata i ddangos eu bod yn dilyn yr arfer gorau.

Lliniaru

Dylunio datrysiadau ar y cyd gyda rheolwyr tir a fydd yn sicrhau manteision i bobl, dŵr a'r amgylchedd

Gweithdy ar Barthau Diogelu gyda CNC



Cynhaliodd y Tîm Dalgylch Dŵr Yfed weithdy ym mis Hydref 2022 ar gyfer CNC gan ganolbwyntio ar barthau diogelu.

Gwnaeth y digwyddiad arddangos gweithgareddau'r tîm a'n cynnydd tuag at gyflwyno mesurau lliniaru effeithiol i wella ansawdd dŵr yn ei darddle ac i nodi cyfleoedd gwaith ar y cyd.

Roedd yr wybodaeth a gafodd ei harddangos yn cynnwys enghreifftiau o ymgysylltu â ffermwyr, gwaith mapio risg hydrolegol a chyflwyno gorsafoedd tywydd ar ffermydd.

Bydd y cyfathrebu rhagweithiol hwn o waith ein tîm yn galluogi CNC i wybod mwy am ein nodau a'n hamcanion.

Gweithdy Llyn Alaw



Cafodd y berthynas â CNC ei chryfhau ymhellach gyda gweithdy mwy penodol wedi'i drefnu gan Gydlynnydd Partneriaeth Dalgylch Gogledd Cymru, Alwyn Roberts.

Daeth y digwyddiad hwn â phersonél allweddol o Dŵr Cymru, CNC a Chyngor Ynys Môn ynghyd i drafod gwelliannau posibl o amgylch dalgylch Llyn Alaw.

Yn y gweithdy roedd cyfle i rannu syniadau ar faterion a heriau a rhestr ddymuniadau o welliannau a datblygiadau posibl y mae pob sefydliad wedi ymrwymo i weithio arnynt gyda'i gilydd.

Mae disgwyl i'r adroddiad sy'n amlinellu canlyniadau'r gweithdy hwn fod ar gael yn gynnar yn 2023.

Eisiau gwybod mwy am TarddLe?

[Ewch i'n gwefan](#)

Anfonwyd yr e-bost hwn at catharine.jones@dwrcymru.com, [cliciwch yma i ddad-danysgrifo](#).

PF